# Recorders' Newsletter

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 28 (Hydref 2012)**

Fis Medi sydd newydd fynd heibio, cynhaliwyd Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru ym Mhontypridd. Ni wn i paham, ond cefais fy ngwahodd i siarad am Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Er nad oes gennyf gof clir o siarad fel y cyfryw, dyma grynodeb o'r hyn y byddwn i wedi hoffi'i ddweud - ac o'r hyn a ddywedais hefyd (gobeithio!): *"Amser maith yn ôl, a Chynllunio Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cael ei wyntyllu gyntaf, byddai'r nodiadau cyfarwyddyd, canllaw, ac arweiniad yn pwysleisio drosodd a throsodd mor bwysig oedd yr elfen leol. Y lleol oedd yr elfen allweddol, gan adeiladu: Roedd Agenda 21 Leol, a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ynghlwm â'i gilydd. Y cwestiwn cyntaf i godi o hyn oedd sut i ddiffinio 'lleol'. Beth, felly, o ran y 'lleol', yw'n cyflawniad ni hyn yn hyn? Beth, o ran y lleol, yw llwyddiant mwyaf y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol?*

*Mae Rhondda Cynon Taf yn gorwedd ymysg Cymoedd y De. Y farn gyffredinol ym 1997 oedd bod yr ardal yn ddiffaith ac yn amddifad o fioamrywiaeth. Gwahanol iawn oedd barn y naturiaethau lleol, ond nid oedd neb yn gofyn iddynt hwy. Ychydig i naturiaethwyr a ddeuai o ardaloedd eraill. Rhyw dwll du oedd yr ardal o ran bioamrywiaeth. Byddai arbenigwyr yn gwibio drwyddi, neu'i hosgoi yn gyfan gwbl. Un o ganlyniadau Arolwg Cynefin Cam 1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ystod y Nawdegau oedd cyhoeddi mapiau amryliw. Bu'r rhain yn agoriad llygaid i rai pobl, ond ychydig oedd yn disgwyl cyrraedd unman wrth i ddechrau troedio'n camau petrus cyntaf ar lwybr y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Rhywbeth a berthynai i bobman oedd bioamrywiaeth, heb droedle penodol yn unman.*

*Bellach, mae'n darlun ni o fioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn llawer mwy clir, lliwgar, a chyffrous. Taith araf oedd hi, yn raddol, ac yn dameidiog. Roedd gofyn am amynedd, ond byddai'i ddiogel i'w galw yn gynaliadwy, debyg iawn. Sail ein darlun o'r fioamrywiaeth yw'r cofnodwyr lleol, adroddiadau lleol, gwybodaeth ceisiadau cynllunio, a data o Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac o ffynonellau eraill. Ein gobaith ni yw y bydd y darlun yn anorffen am byth. Portread byw o hanes naturiol unigryw Rhondda Cynon Taf sydd gyda ni bellach, yn hytrach na nodyn cryno o ryw dir Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol digon bethma. Rydym yn ddigon hyderus erbyn hyn i sôn am yr hynodrwydd a natur unigryw lleol sy'n esgor ar*

*fioamrywiaeth gyfoethog Rhondda Cynon Taf. Hyn sy'n rhoi cymeriad neilltuol i'r ardal hon. Dros y blynyddoedd, mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi arsylwi, trafod, coladu, cydlynu, crynhoi, a chasglu'r tameidiau o wybodaeth a hysbysrwydd a ddaeth o fewn gafael. Bellach, medrwn drafod yr ardal a'r mannau tu fewn iddi. Buom wrthi gyda phrosiectau rheoli, cynllunio gwaith darparu, cyflenwi, a chyflwyno, achlysuron a digwyddiadau bioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth, a llu o bethau eraill. Ond y ddealltwriaeth a ddaeth i'r amlwg o fioamrywiaeth Rhondda Cynon Taf oedd ein llwyddiant mwyaf. Y ddealltwriaeth hon sy'n sail i fwy a mwy o amcanion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a'r cyfleoedd a ddilynwn ni.*

Mae gennyf frith gof o daeru, ryw 15 mlynedd yn ôl fod bioamrywiaeth Rhondda Cynon Taf yn ddigon i greu cwis tafarn a dim mwy. Erbyn heddiw, credaf fod gennym ddigon i lunio drafft newydd eithaf da o 'Llyfr Natur Iolo' - syniad a fyddai'n siŵr o hudo cynulleidfa ddigon effro. Bydd cryn hanner o ddeunydd y drafft newydd yma yn dod o rifynnau 'Cylchlythyr y Cofnodwyr'.

**Ffridd**

Y pwynt mwyaf diddorol a glywais yn y Gynhadledd oedd y posibilrwydd y byddai Cymru yn cydnabod **Ffridd** fel cynefin annibynnol ar wahân yn rhestr Adran 42 Cymru o gynefinoedd o bwysigrwydd ac arwyddocâd cadwraeth. Mae'n Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ni yn diffinio Ffridd fel *y rhan o ochr y cwm heb ei thrin, y cylch rhwng cynefinoedd defaid yr ucheldir (a'r planhigfeydd conwydd modern) a llawr y dyffryn*. Yn Rhondda Cynon Taf, fe ddiffinnir hwn yn aml gan lôn gefn y stryd teras uchaf. *Nodweddir y ffridd yn Rhondda Cynon Taf gan frithwaith cymhleth o ros, rhedyn ungoes, glaswelltir asidaidd, coetir, gwastraff glo, a phorfa rhos â llaciau Mae'n un o arweddion a nodweddion pwysicaf a mwyaf nodweddiadol Cymoedd y{2} De, yn ffurfio brithweithiau parhaus a di-dor o gynefin lled-naturiol ar hyd afonydd y dyffrynnoedd.'* Yn fy marn i, y Ffridd yw'r cynefin pwysicaf yn Rhondda Cynon Taf. Dyma'r glud bioamrywiaeth sy'n clymu'r rhannau'n un corff byw. Cronfa ydyw o rywogaethau a chynefinoedd, yn sianel lle gall llawer o'n bywyd gwyllt symud. Dyma'r cysylltedd cynefinoedd go iawn.

**Tywydd**

Mae tair gorsaf dywydd gyda ni erbyn hyn, sef Tŷnewydd-Treherbert, Llwynypia, a Chwm-bach. Beth yw'r haf i ni? Wel dyma'r hanes i gyd i chi, mewn modfeddi maith a milimetrau main!

Oddi wrth Marcus Middlehurst, Tŷnewydd;
Ionawr Cyfanswm 284mm glaw (uchafswm 88 mm ar 2ail Ionawr)
Chwefror Cyfanswm 142mm glaw (uchafswm 38 mm ar 22ain Chwefror)
Mawrth Cyfanswm 62mm glaw (uchafswm 28 mm ar 6ed Mawrth)
Ebrill Cyfanswm 398mm glaw (uchafswm 40 mm ar 9fed Ebrill) - neu, yng ngeiriau Marcus ei hun *'Dyma ffigurau sy'n cicio rhai Dereck Brockway dros y bar!*
Mai Cyfanswm 186mm glaw (uchafswm 75 mm ar 9fed Mai)
Mehefin Cyfanswm 498mm glaw (uchafswm 133 mm ar 7fed Mehefin a 75 ar y 15),

Medi Cyfanswm 170mm glaw (amcangyfrif uchafswm 20 mm ar 23ain Medi a 45mm ar y 24[ain]).

Dyma'r uchafbwyntiau glawiad a nododd Paul Marshman ychydig filltiroedd i lawr y Rhondda, yn Llwynypia;
9.6 modfedd (243.84mm) o law ym mis Ebrill, sy'n cymharu'n ddau gyda'r tri mis Ebrill gwlypaf a gofnododd Paul erioed. Pwynt diddorol yw i bob un o'r rhain nodi 10 modfedd neu ragor, gan ddigwydd rhwng 1998 a 2000: triawd o hafau gwlyb!

Cofnodwyd 120mm o law yng ngardd Paul rhwng Mehefin 6[ed] a'r 7[fed] (60 mm ar bob un o'r diwrnodau) sef cyfanswm o 13.9 modfedd (353.06 mm) o law (yn gyfartal â'i fis Mehefin mwyaf glawog erioed yn 1998). Ond mis cynnes oedd hwn, gydag uchafswm tymheredd ar gyfartaledd o 19.9 gradd Celsius. Cymharwn hyn gyda mis Mehefin lleiaf cynnes Paul, ym 1991. 16.8 gradd Celsius oedd yr uchafswm tymheredd ar gyfartaledd, gyda chryn 8.8 modfedd o law. Felly, o ran haf a hinon, roedd mis Mehefin 2012 yn anhraethol well na Mehefin mwll 1991. Yn ogystal a hyn fe gofnododd 60mm o law rhwng 22[ail] a 23[ain] Medi.

Roedd cofnodion Mark Evans, Cwm-bach, megis yn garreg ateb i gasgliad Paul ynglŷn â misoedd Ebrill gwlyb. *'Mae llawer o sôn gan y Swyddfa Dywydd ar hyn o bryd fod y mis Ebrill hwn yn wlypach na'r un arall ledled y Deyrnas Unedig ers can mlynedd. Mis digon difrifol oedd Ebrill yn y fan hon, ond roeddwn i'n argyhoeddedig nad dyma'r un gwlypaf a gofnodais yn fy ngardd i. Chwiliais drwy fy nghofnodion tywydd i gyd a llunio rhestr, a darganfod taw'r Ebrill trydydd wlypaf oedd hwn. Ebrill 2000 oedd y gwlypaf i gyd, gyda 1998 yn ail.*

*'*Mae cofnodion glawiad Mark ar gyfer wyth mis cyntaf 2012 yn adlewyrchu'n fanwl y tueddon yng nghofnodion Marcus a Paul. Ar yr un pryd, diddorol yw sylwi'u bod yn awgrymu fod Cwm Cynon yn llawer llai gwlyb na'r Rhondda (roeddwn ar ddweud 'llawer sychach', ond mae 'llai gwlyb' yn nes ati);

Ionawr - Cyfanswm 162.70 mm
Chwefror - Cyfanswm 56.75 mm
Mawrth - Cyfanswm 27.50 mm
Ebrill - Cyfanswm 200.60 mm
Mai - Cyfanswm 135.75 mm
Mehefin - Cyfanswm 286.85 mm
Gorffennaf - Cyfanswm 119.45 mm
Awst - Cyfanswm 218.50 mm

**Ffenoleg**
Roedd y gwanwyn yn hwyr, ac fe sylwodd Mark Evans tua chanol mis Mai mor araf oedd yr haf yn cyrraedd ei anterth. '*Roedd Mark yn ymweld â safle glofa'r Werfa* yn Abernant. 'Yr hyn a'm trawodd ar unwaith oedd mor araf oedd datblygiad y dail ar y coed. Roeddwn i ar y safle bron yr union un diwrnod y llynedd, a thynnu nifer o luniau gwyfynod a welswn i ar y coed yno. Yn y lluniau hyn, mae'r dail wedi datblygu'n llawn, hyd yn oed ar y deri. Y llynedd,

ar y llaw arall, eithaf tenau yw'r dail ar yr helyg deilgrwn. Mae dail y deri'n dal i ddechrau egino, ac yn dal yn grin a melyn. Mae'r ffaith fod y coed mor hwyr ac araf yn deilio yn dangos yn glir - pe bai angen hynny - mor anghyffredin o wael oedd y gwanwyn hwn.

**Mamaliaid**
Roedd nifer anhygoel o **wiwerod llwyd** i'w gweld wedi'u lladd gan geir yr hydref hwn. Rwy'n cymryd fod hyn yn ymwneud á thymor bridio a magu neilltuol o dda, a llawer o anifeiliaid ifanc yn gwasgaru. Yn ategu'r ddamcaniaeth hon roedd y sylw bach a anfonodd Jonathan Barrett ataf: 'Y peth mwyaf trawiadol a sylwais oedd nifer y gwiwerod a welaf, gan gynnwys rhai marw ar y ffordd a rhai byw yn y coedwigoedd. Dyna'r nifer fwyaf ohonynt a welais yn ystod y ddeufis diwethaf. Nifer anghyffredin o uchel.'

Ryw dro ym mis Mehefin, fe welodd Ben Williams' *ryw famal wedi'i ladd gan geir ar ffordd osgoi Pentre'r Eglwys un bore Dydd Iau. Gallasai fod yn* ***ffwlbart****, yn* ***finc****, neu'n* ***ffured****, hwyrach. Ni chefais amser i fynd yn ôl ac edrych arno'n iawn'*, ond *'Fore Sadwrn 28ain Gorffennaf, a finnau'n gyrru heibio i bentref Cross Inn ar y ffordd osgoi, cefais hyd i ffwlbart marw ar y Mi fentrais fy mywyd er mwyn cael adnabod a nodi'r creadur, ond ffwlbart ydoedd heb os nac oni bai. Yn anffodus, roedd yr anafiadau'n rhy ddifrifol i weld ai gwryw neu fenyw oedd. Rwy'n amau taw'r un anifail a gododd Jo Bates o'r ffordd. Erbyn iddi hi gyrraedd (ac rwy'n ymddiheuro am y llun erchyll) ni welodd hi ddim ar ôl ond 'dwy bawen a rhan o'r croen'*, ac aeth y gweddillion i gael eu dadansoddi. Gall Jo gadarnhau taw ffwlbart o waed coch cyfan oedd y ffwlbart hwn. *'Mae dadansoddiadau DNA wedi cadarnhau hyn'.*

Cyfarfu Liz Dean â cherddwr oedd wedi gweld **ysgyfarnogod** ar Gomin Cilfynydd (lleoliad newydd iddynt) yn y flwyddyn ddiwethaf. Traddododd Sonia Knowles adroddiad gan ffrindiau iddi. Roedd y rhain wedi gweld teulu o bum **dyfrgi** ar Afon Taf ger Pont y Doctor ym Mhontypridd. Roedd hi ar ôl hanner nos, ond gwelwn yr anifeiliaid yn glir yng ngoleuadau ffordd yr A470.

Daeth newyddion da am un rhywogaeth bwysig, yr **ystlum pedol lleiaf**, i law oddi wrth Adrian Williams a Grŵp Ystlumod y Cymoedd. Yn y glwydfan neu feithrinfa magu a mamolaeth rywle yn ne-orllewin Rhondda Cynon Taf, roedd tua 200 yn magu yr haf hwn. Diolch byth am hynny - rhaid bod tywydd yr haf wedi rhoi pwysau mawr ar yr ystlumod.

Yn ystod yr haf, fe welodd Dave Batten **garlwm** ar safle Caeau Ynys y Cyngor yn Aberdâr. Gwelodd Liz Dean **wenci** yn y cylch gwyllt ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd. (Ychydig iawn o gofnodion o garlymod neu wencïod gawn ni.) Mae Bryan Morris wedi nodi **cadnöes**yn ei ardd yn Aberdâr. Roedd Mr a Mrs Charnock, Pont-y-clun, wedi cael **draenogiaid** yn eu gardd ym Meisgyn. Rydym ni wedi cael draenogiaid yn ein gardd yn rheolaidd yr haf hwn. Yn ôl Marcus Middlehurst, '*Mae teulu bach o* ***lygod Ffrengig*** *pert a hoffus wedi cyrraedd acw .... Efallai'u bod nhw ddim wrth ddant pawb, ond maen nhw'n perfformio'r un stranciau â gwiwerod. Ar wahan i ddwyn bwyd yr adar, maent i'w gweld yn ddigon diniwed. Hyd y gwelaf i, un oedolyn sydd, gyda dwy lygoden ffyrnig fach .'*

**Amffibiaid ac Ymlusgiaid**
Dyma neges oddi wrth Mr a Mrs Charnock am eu gardd ym Meisgyn: '*A ninnau'n ceisio dangos ein dau **froga** preswyl a pharhaol, dyma ni'n sylwi ar **fadfall ddŵr** wrthi'n nofio'n jocôs mewn un o'r tri phwll yng ngwaelod ein gardd. Rydym heb ei gweld oddi ar hynny, ond mae'r ddau ohonom yn eithaf ffyddiog fod madfallod dŵr bach i'w cael yn y pwll dŵr'*

Roedd hi'n haf a hanner i'r amffibiaid: aethom ni ati i greu pwll dŵr yn yr ardd a gwanwyn hwn, ac o fewn ychydig ddyddiau roedd brogaod wedi symud i fyw yno. Edrychaf ymlaen at weld y madfallod dŵr cyffredin neu balfog cyntaf yn brigo i'r wyneb.

Gyrrodd Mark Evans lun gwych o Abernant o neidr y gwair wedi'i chuddliwio*: 'Ychydig cyn i mi ymadael â'r safle gogoneddus hwn, fe sylwais rywbeth ymhlith yr isdyfiant a'r sbwriel. O dan ryw eithin, roedd darn o sbwriel â phatrwm croen neidr i'w weld, fel y tybiwn. Cymerais sawl eiliad cyn iddi wawrio arnaf taw neidr y gwair oedd yno, yn fy ngwylio i'n garcus.'*.

Mae Terry Hourihan wedi gyrru crynodeb fach bert o'r *cofnodion ar gyfer y* bryniau uwchlaw Trefforest, lle mae *'**madfallod**, **brogaod, llyffaint**, **madfallod dŵr**, **nadroedd defaid** a **gwiberod** yn gyffredin'*: Roeddem yn arbennig o falch pan ddaeth cofnod o wiber i law.

Ar Hydref 4ydd mi es ar ymweliad i safle Nant Celyn, a reolir gan y Cyngor, yn yr Efail Isaf. A finnau'n eistedd ar bwys lloches bwrpasol i ymlusgiaid, mi welais ddwy **neidr y gwair** yn torheulo yn heulwen egwan yr hydref. Fe welodd Ben Williams un ar Gomin Llantrisant ym mis Mai. Daeth adroddiad am neidr yn sownd mewn ffens yn ardal Aberdâr i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Brysiodd yr ecolegydd Rhys Jones yno i achub y creadur. Mae'n bosibl y gwelwn ni'r hanes yn y gyfres deledu 'Rhys to the Rescue'.

**Adar**
Gwelodd Jonathan Barrett aderyn arbennig ger Cronfa'r Lluest Wen ym mis Ebrill *'Rwy'n eithaf ffyddiog taw **cudyll bach** welais i. Gwelais un ychydig flynyddoedd yn ôl yn yr un lleoliad. Rwy'n eithaf sicr taw'r un un ydoedd. Yn anffodus, ni chefais amser i dynnu'r camera allan. Ond fe gefais gyfle i dynnu llun gwych ychydig wythnosau'n ôl, pan ddaeth **barcud coch** i'r un lleoliad. Bues i'n ddigion cyflym â'r camera y tro hwnnw!'*

Y llynedd fe dagiodd Ymddiriedolaeth Adareg Prydain nifer o **gogau** ar gyfer y lloeren er mwyn olrhain eu llwybr mudo i Affrica ganol ac yn ôl. Roedd nifer o adar o Gymry yn eu plith y tro hwn. Un peth trawiadol yw pa mor gynnar yn yr haf y bydd yr adar hyn yn ei gwadnu hi oddi yma i ddechrau crwydro'n araf iawn tua'u cyrchfan yn y De. Am ychydig iawn o wythnosau ar y tro y bydd yr adar llawn dwf yn Ynys Prydain. Yn sgîl y cofnodion cynharach o Aberpennar a gyhoeddwyd yn y Cylchlythyr diwethaf, daeth cofnodion pellach ar gyfer Cwm Cynon i law oddi wrth Mark Evans. '*Cog gyntaf y flwyddyn ar 11eg Ebrill ar y llechwedd uwchlaw fferm Bryngolwg, Meisgyn, Aberpennar'* a hefyd '*Cafodd cog Cefnpennar ei chlywed a'i gweld am y tro cyntaf ddoed, y 15fed'.*
Hefyd o'r un ardal, '*roedd David Gordon wedi'i chlywed o dro i dro yn ystod y*

*dydd'.* Cuckoos returned to the Valleys around Llwynypia/Gelli by April 2nd and then off and on through May (a series of reports from Paul Marshman), a bird was present yng Nghwm Cadlan, Penderyn (Kevin Oates 7fed Mai). Daeth adroddiadau o Gwm Clydach oddi wrth Gareth Henson a Ben Williams. Dyma'u he-bost ar y pwnc: '*Oh! Clywais gog arall yng Nghwm Clydach, sy'n awgrymu'u bod ar gynnydd'*. Lleisiodd obaith hefyd y bydd y cogau yn ymledu ychydig ymhellach tua'r de eleni: *'Bu fy ngwraig a'i ffrindiau yn gwrando ar gog yn canu Ddydd Sadwrn, ger Clwb Golff Pontypridd. Roedd un yn galw o'r tu ôl i'n tŷ ni yn Nhon-teg hefyd'.* Daeth adroddiad i law oddi wrth Mark Steer, yn sôn am gog yn canu yng Nghoed y Brynnau. Efallai fod sail i obaith fod y cogau wedi mwynhau gwell blwyddyn ohoni yn y Cymoedd eleni.

Ar Ebrill 29ain '*Llwyddodd Martin Bevan i godi **tylluan glustiog** o'r rhos uwchlaw pyllau dŵr Abernant, ar ystlys ddeheuol Mynydd Aberdâr. Gwelodd ef y dylluan yn hela eto Ddydd Mawrth, a Mike Hogan a'i gwelodd neithiwr'*. (Mark Evans). Efallai taw hon oedd yr aderyn yn adroddiad Paul Marshman ym mis Mai. Mewn adroddiad arall, mae Paul yn nodi safle nythu **tylluanod gwyn** yn ne-orllewin Rhondda Cynon Taf. Daeth adroddiadau eraill i law yn y Gwanwyn. Fe welodd Paul Marshman (PM) **bibydd y dorlan** Llyn Glyncornel ar Fai 3ydd. Ar ddechrau mis Mai hefyd roedd gan Paul saith **pila gwyrdd** ifanc neu iau yn ei ardd, gyda'r nifer yn codi i 14 (rhai ifanc ac iau yn bennaf) erbyn Mehefin 6ed, ynghyd â **llinos bengoch** gyda modrwy adar. (Tybed a ddaeth hon o Goed Glyncornel, lle mae Clwb Adar Morgannwg wedi dechrau modrwyo adar bellach?) Yn ogystal â hyn roedd yno ddwy **hwyaden ddanheddog** ar Afon Rhondda yn Llwynypia ar Fehefin 12fed (PM). Tybed a ydynt yn nythu rywle yn gyfagos? Yn ogystal â hyn fe roes Paul wybod i mi am weld **siglen felen** wrywaidd yn gynnar ym mis Mai (aderyn prin iawn yw hwn yn Rhondda Cynon Taf). Tua'r un adeg fe ddychwelodd **gwybedogau mannog** i Dŷ Glyncornel unwaith eto (PM). **Roedd nifer fechan o deloriaid y coed** yng Nglyncornel a Chwm Bodwenarth (Llwynypia) erbyn diwedd mis Mai (PM). Yn ogystal â hyn mi gefais y pleser o wylio gwybedog mannog yn dal clêr, a chlywed **telor yr ardd** yn canu ym Mharc Nant Celyn, Efail Isaf.

Roedd cychwyn cyntaf oll y gwanwyn yn eithaf addawol. Dyma neges Mark Evans am yr hyn a welodd ar Afon Cynon ger Cwm-bach: '*Ar 22ain Ebrill, a finnau yn rhan uchaf Caeau Tirffownder Tirfounder Fields, penderfynais dreulio awr fach rydd neu ddwy yn gwylio am **deloriaid cyrs a hesg** cyntaf y flwyddyn. Clywais o leiaf dri o deloriaid y cyrs yn canu, a **bras y cyrs** gwryw hardd hefyd. Gwaetha'r modd, nid oedd siw na miw o delor yr hesg. A finnau yn cerdded i fyny Afon Cynon, dechreuais olrhain ble roedd rhyw **delor penddu**, a dyna pryd y gwelais fy **ngweddol y glennydd** eleni: Fel arfer, hyd y gwelaf, y fi fydd yr olaf bob blwyddyn i weld gwennol y glennydd yn Sir Forgannwg. Ychydig ymhellach i fyny Afon Cynon, mi arhosais i graffu ar y tir o'm blaen i fyny'r afon gan obeithio gweld **glas y dorlan**. Mi welais i rywbeth yn symud ar y dorlan gyferbyn. Rhois fy holl sylw i'r symudiadau yn y llystyfiant isel. A dyna'n sydyn roedd **minc**, ar sefyll i fyny ar ei draed ôl. Roedd ei gorff yn syth, a'i ben yn troi'r naill ffordd ac yna'r llall. Syllai â llygaid du, sgleiniog, dideimlad nodweddiadol y carlymoliaid. Creadur ysblennydd oedd hwn, yn ddi-os: dyna drueni eu bod yn difa cymaint o'n bywyd gwellt brodorol. Edrychai'r minc o gwmpas am funud neu ddau, ond methodd fy*

*ngweld yn gyfan gwbl. Yna fe ddisgynnodd ar ei bedwar, a gwibio metr neu ddau i dwll yn y dorlan, o dan wreiddyn coeden. Hwn, rwy'n tybio, oedd y twll i'w nyth. Ryw ddau gan metr i fyny'r afon, cefais hyd i bâr o hwyaid danheddog. Roeddent yn trwsio a thwtio plu a phincio ar draethell, ar ochr draw'r afon'.* Wrth i mi wylio fy sgwâr Arolwg Adar sy'n Bridio SO0500, gwelais fy *nghorhedydd y coed* ***cyntaf eleni, ger cwr uchaf y coed sy'n cuddio tomen Caegarw. A finnau'n gwylio fy sgwaryn y llynedd, gwelais fy nghorhedydd y coed cyntaf yn yr un lle yn union.***

Un arall sy'n gwylio adar ar Gaeau Tirffownder yw James Burton. Dyma'r rhestr ardderchog o rywogaethau a welodd ef, 45 ohonynt, rhwng Mawrth a Mai 2012: 2012;**mwyalchen**, **telor penddu, titw tomos las, coch y berllan, ji-binc**, **gŵydd Canada**, **brân dyddyn**, **siff-saff, cwtiar , bronwen y dŵr**, **llwyd y gwrych, telor yr ardd, troellwr bach, nico, titw mawr, llinos werdd, crëyr glas, siglen lwyd, gŵydd wyllt, gwennol y bondo, aderyn y to, jac-y-do**, glas y dorlan, **gwyach fach, titw cynffon-hir, pioden, hwyaden wyllt, iâr ddŵr, siglen fraith**, bras y cyrs, telor y cyrs, **robin goch,** telor yr hesg, **gïach, bronfraith, gwennol, gwennol ddu, corhwyaden, dringwr bach, telor yr helyg, titw cynffon-hir, llwydfron, ysguthan**, a **dryw.** Yn ogystal á hyn bu cofnodion heb eu cadarnhau o **regen y dŵr, gwybedog brith, pibydd y dorlan, dyfrgi, minc, hwyaden ddanheddog, hwyaden lostfain hwyaden lygad aur, a llwydfron fach.** Safle gwlyptir gwych yw Caeau Tirffownder. Mae llyfr Clwb Adar Morgannwg **Birding in Glamorgan** (Alan Rosney a Richard Smith) yn ei grybwyll fel un o chwech o safleoedd yn Rhondda Cynon Taf .

Yn ôl Tony Swann, roedd ei brofiad o Goed y Brynnau *'yn gymharol dawel, gyda'r holl dywydd gwlyb yn fwrn ar y bywyd gwyllt yno. Ychydig fisoedd yn ôl, dywedodd rhyw bâr wrthyf iddynt weld bronwen y dŵr yn Afon Ewenni Fach, ar bwys y bont droed. Llwyddais i'w oddiweddyd - ac un arall hefyd, o bosibl - o'r diwedd. A minnau'n croesi'r bont droed o'i phen de-orllewinol, hedfanodd bronwen y dŵr o dani, ac ymlaen a hi i fyny'r afon ac allan o'r golwg. Os edrychwch chi i fyny'r afon o ochr y coed i'r bont, mae nifer o gerrig ar yr ochr dde. Chwarter awr yn ddiweddarach, hedfanodd rhyw fronwen y dŵr i garreg a dechrau bwydo. Cyn hir, fe ddringodd i'r garreg fwyaf a gorffwys yno. Ni fydd modd gweld y cerrig os na fydd lefel yr afon fel arfer. Bydd unrhyw dywydd garw yn codi lefel yr afon a'u cuddio. Tybed pam nad ydynt wedi defnyddio'r afon o'u blaen? Dyna rwyf i'n ei ofyn ers rhyw 30 o flynyddoedd. Gobeithio bellach eu gweld yn rheolaidd. Mae'n debyg y cawn eu gweld yn rheolaidd tan ddechrau'r hydref. Byddant yn ymfudo dros bellter byr wedyn, wrth i'r stociau bwyd ddisbyddu. Mae sawl mantais, yn enwedig y cyd-destun a lunnir, i'r math o gofnodi hirdymor a thymor hir a wnaeth Tony ar gyfer Coed y Brynnau. Nododd Tony fod teloriaid coetir fel siff-saffod, a taeloriaid penddu, yn ffynnu yng Nghoed y Brynnau. Ond, ar y llaw arall, gan na fu pori ar y gors agored ers blynyddoedd lawer, 'Cafodd glasbrennau a choed ifanc dyfu'n ddirwystr, ac o ganlyniad nid oes llwydfronnau, na theloriaid yr hesg, i'w cael yno.'* Ond yn newyddion da yw bod yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt wrthi'n ystyried ailsefydlu peth o dir pori prif ardal gorsiog y Warchodfa. Os yw hyn yn llwyddo, dylai fod modd adfer y gors gyfoethog ei rhywogaethau, yn ogystal â rhywogaethau megis y llwydfron, a thelor yr hesg, a sawl un arall hefyd.

Anfonodd Terry Hourihan grynodeb ardderchog o'r bywyd gwyllt a welwyd yn y bryniau uwchlaw Trefforest; *'Mae gan yr ardal poblogaeth breswyl sefydlog o **cnocellod gwyrdd**. Yn ddiweddar, fe welwyd **cnocellod braith mwyaf** hyn yr ardal, ac mae dringwyr bach yma hefyd. Fel arfer fe fydd **ehedyddion** yma, ond nid eleni. Cawsom **dylluanod** gwyn a **thylluanod brych**, a bu cogau yma'r llynedd ar ôl bwlch o flwyddyn er y byddant yma fel arfer. Cawsom lu o ddrywod, robiniaid, bronfreithod, mwyeilch, golfanod, **sgrechod y coed**, amryw o aelodau o deulu'r **titw**, **gweilch glas** a llu o adar bach brown nad wyf yn ddigon hyddysg i'w henwi..* Anfonodd Marcus Middlehurst, Tŷ Newydd, grynodeb fach ardderchog ataf o'i libart yno:'titwod glas, mawr, **penddu** a chynffon hir, llwydiaid y gwrych, robiniaid, golfanod, llinosiaid gwyrdd, nicos, bronfreithod, mwyeilch, piod, **sgrechod y coed, deloriaid y cnau, pilaod gwyrdd,** drywod**,** cnocell fraith fwyaf a chnocell werdd, gweilch glas **bodaod, crëyrod, hwyaid, a brain'**.

Nododd Jonathan Barrett *niferoedd mawr o nicos o gwmpas safle hen Lofa'r Maerdy a Chronfa'r Lluest Wen. Mi welais dylluan frech hefyd, ryw ddeuddydd yn ôl am 11 y bore. Ychydig ffordd y tu allan i Ynys-y-bŵl oedd hyn'.* Yn uchelfannau Glynrhedynog mae Kevin Huish yn byw. Ymhlith y llinosiaid gwyrdd, ji-bincod, adar y to, robiniaid, a thitwod penddu, cynffon-hir, a thomos glas oedd yn ymweld â'u gardd, fe welodd ei wraig **corhedydd y waun.** Nid aderyn gardd cyffredin mo hwn - oni bai'ch bod yn byw yn uchelfannau Glynrhedynog, wrth gwrs. Yn ogystal â hyn fe welodd Kevin **gudyll coch** yn hedfan mewn cylchoedd uwchben Glynrhedynog. Yn ddiweddar fe welodd Mark Steer *'rffesant yng nghanol y prynhawn, ar y lôn i mewn i Westy'r Miskin Manor. Yn gynnar yr un bore mi welais gadno yn yr un fan yn union!'*

Anfonodd Mr a Mrs Charnock, Pont-y-clun, y newyddion diweddaraf am y bywyd gwyllt yn eu gardd ym Meisgyn. Maent wedi nodi niferoedd mawr o adar, yn enwedig rai ifanc iawn. Ymhlith yr ymwelwyr dyddiol roedd y gnocell fraith fwyaf (dwy neu dair ohonynt, weithiau),delor y cnau, tri nico, pâr o gochion y berllan, a dau bâr o linosiaid gwyrdd'. Nododd gwraig Bryan Morris iddo weld mwyalchen albino, hollol wen, yn agos i'w chartref yn Aberdâr.

Mae'r brigiadau ***ffytoffthora*** (afiechyd coed sy'n beryglus iawn i fywydau coed llarwydd) yn effeithio'n sylweddol ar ardaloedd coedwigaeth fasnachol y De. Yn y rhan fwyaf o achosion, llwyr gwympo a thorri clir yw'r unig driniaeth ar gyfer cellïau afiach. Bu Mark Evans yn ceisio asesu goblygiadau posibl ei glwydfan **cigfrain** yng Nghwm Cynon. Gyrrodd ffrwyth ei ymchwil ataf; *'Nid yw'n glir o gwbl beth yw'r effaith ar glwydfan y cigfrain, ond rwy'n dal i ymchwilio. Mae llain o larwydd ar hyd, a man eithaf mawr yn llawn coed aeddfed tu ôl iddi. Dyna pam drwy'n dal yn ansicr, hyd yn oed ar ôl blynyddoedd maith o gyfri'r brain, ble yn gywir maent yn clwydo yn y rhan gyffredinol o'r goedwig a fedyddiais i'n 'glwydfan'. Byddaf i'n eu gweld yn hedfan o ymyl de-orllewinol y goedwig, lle mae llain gul o larwydd yn tyfu. Tu ôl i honno, mae llain ychydig yn lletach o binwydd camfrig eithaf gwael, a bloc digon mawr o sbriws sitca tu ôl i'r rhain. Cymerais yn ganiataol yn y gorffennol eu bod yn arfer clwydo yn y pinwydd camfrig. Byddent yn hedfan allan dros y llarwydd, gan eistedd am foment ar y llarwydd wrth fynd drwodd. Ond wedyn mi sylwais dros y ddwy flynedd ddiwethaf fod llawer o alwadau hedfan yn dod*

*o rywle dipyn o ffordd yn nes at gefn y glwydfan. Tybed a oedd rhan o'r glwydfan - neu'r cyfan, o bosibl, yn y bloc o sbriws sitca mewn gwirionedd. Mae'n fwriad gennyf ers sbel i fynd yno un bore i weld beth sy'n digwydd. Ni chredaf y byddaf yn ceisio'u cyfrif, yn hytrach wylio'r rhan tu ôl i'r pinwydd camfrig i weld beth sy'n digwydd. Gwaetha'r modd, yn ôl fel y mae pethau'r dyddiau yma, anaml y caf gyfle i wneud hyn. Ond gan fod y clefyd coed newydd yn fygythiad i'r glwydfan, roeddwn ar dân eisiau casglu'r wybodaeth. Dyma fi felly, un bore Llun, yn cyfri'r cigfrain. (Cyn i chi ofyn, roedd y car mewn garej yn cael ei drwsio ac atgyweirio rhan fwya'r wythnos.) Cofnodais 427 o adar yn ymadael, fy nghyfanswm mwyaf erioed. Penderfynais fynd yn ôl, y penwythnos nesaf. Fel mae'n digwydd, bu raid i mi fynd a'r car yn ôl i'r garej ddoe. Dyma fi felly yn manteisio ar ddiwrnod annisgwyl i'r brenin, ac yn cerdded i fyny. Nid wyf yn hollol sicr am y canlyniadau, ond cefais rywbeth i gnoi cil arno.*

*Daeth y galwadau cyntaf o'r pâr preswyl a sefydlog. Mae'r rhain wastad ar ymyl y llarwydd, neu'r agos ati. Ond dechreuodd gweddill y glwydfan alw wedyn, a hyd y gallwn i weld roedd y cyfan yn dod o' lleiniau pinwydd camfrig a llarwydd, a dim o'r sbriws sitca. Ar ôl ychydig funudau, dyma fi'n clywed galwadau hedfan wrth i'r don gyntaf o gigfrain gychwyn o'r glwydfan a dechrau hedfan tua Bryn Pica. Hyd y gwelwn i, roedd y galwadau hyn yn dod o ran y glwydfan lle mae'r llarwydd a'r pinwydd. Ond yn sydyn dyna fi'n clywed galwadau hedfan yn dod o gyfeiriad y sbriwswydd. Roeddwn i wedi disgwyl gweld adar yn hedfan i ffwrdd o'r sbriwswydd, yn mynd o ran y glwydfan lle mae'r llarwydd a'r pinwydd. Ond y gwrthwyneb i hyn oedd yn digwydd: dyna'r adar yn hedfan o'r pinwydd uwchben y sbriwswydd ac yn cychwyn tua'r dwyrain, ar draws dyffryn Merthyr tua thomen Trecati. Tuag 60 o adar oedd yn yr haid hon yn unig. Mae'n debyg fod heidiau eraill wedi'i dilyn hi, wrth i'r adar eraill barhau i hedfan allan. Gwaetha'r modd, roedd raid i mi droi tuag adref. Rwy'n bwriadu dychwelyd yno dros y penwythnos. Y tro hwn, byddaf yn gwylio'r safle o'r ochr arall, ac yn aros tra bo'r adar i gyd yn hedfan allan, er mwyn cyfrif y rhai sy'n hedfan tua'r dwyrain.*

*Tybed a fydd ymadawiad mawr yr adar tua'r dwyrain yn digwydd eto? Cwestiwn gogleisiol! Oherwydd os dyna sy'n digwydd, mae'n bosibl - yn debygol, mewn gwirionedd - fod fy ffigurau ar gyfer cigfrain sy'n defnyddio'r glwydfan honno. Tybed faint yw'r ganran a gollais? 427 o adar a welais yn hedfan allan tua'r gorllewin ar Ddydd Llun, ac roedd 80 yn yr haid a welais yn hedfan tua'r dwyrain ar ddydd Mercher. Os gwn i a fyddai amcangyfrif o 20% yn weddol agos ati? Tybed a oedd clwydfan cigfrain Blaencannaid yn llawer mwy na beth roeddwn i wedi'i amau? Os gwn i ai adar yn hedfan allan o'r glwydfan ac yn cychwyn tua'r dwyrain oedd yn gwneud y galwadau hedfan pellennig hynny? Byddai'n gwbl amhosibl i un person gyfrif y cyfan. Byddai gofyn am ddau o leiaf. Un ateb posibl i'r broblem fyddai cael dau o bobl i wneud pob cyfrifiad. Gallai un gyfrif yr adar yn hedfan tua Bryn Pica, gyda'r llall yn cyfri'r adar sy'n mynd tua Threcati. Os yr un yw canran yr adar sy'n hedfan tua'r dwyrain byddai modd amcangyfrif maint y glwydfan gyfan drwy ychwanegu'r ganran honno i bob cyfrifiad o adar sy'n mynd tua Bryn Pica.'* Ni fyddai modd llunio ystyriaethau dadansoddol o glwydfan y cigfrain - neu o unrhyw fater - oni bai fod Mark wedi'i hastudio ers blynyddoedd. Yn ogystal â

rhoi cyfle i rywun ystyried y materion a'r dadleuon i gyd mewn ffordd glir, bydd yn codi llu o gwestiynau newydd. Dyna sy'n ychwanegu at yr hwyl!

Wrth i'r hydref ddirwyn ymlaen, bydd adar mudol yr haf bron i gyd wedi mynd ar eu ffordd. Caf deimlad na fyddwn ni'n sylwi arnynt yn ymadael. Ond rhaid cofio fod **gwenoliaid** a **gwenoliaid y bondo,** yn wahanol. Ymhlith datblygiadau hynod yr hydref hwn, rhaid crybwyll adroddiadau am y ddwy rywogaeth yn nythu yn hwyr. Roedd adar ifanc yn dal mewn rhai nythod yn ystod mis Hydref. Y dyb yw bod yr adar wedi ymestyn y tymor bridio a magu yn ymateb i'r haf gwael. Collodd lawer o adar eu nytheidiau cynnar, a byddai nythu o'r newydd yn fodd i geisio achub rhywbeth o'r golled. Un ffenomen hynod arall oedd symudiadau hir, estynedig, rhai o'r adar. Mae'n bosibl y bydd rhai pobl wedi sylwi hyn yn ystod 10 niwrnod olaf mis Medi, a 10 niwrnod cyntaf mis Hydref. Drwy gydol y cyfnod hwnnw, roedd grwpiau bach o wenoliaid y bondo a gwenoliaid mewn grwpiau bach yn hedfan tua'r de-ddwyrain. Yn ystod y rhai o'r glawiadau trwm ym Mhontypridd, bu grwpiau o 50 neu ragor o wenoliaid y bondo yn ymgynnull uwchben Afon Taf, ac yn bwydo yn y llechweddau coediog yng nghysgod y gwyntoedd. Anodd iawn yw olrhain adar yn symud fel hyn mewn tirweddau gwastad. Yn y Cymoedd, ar y llaw arall, mae'r tirwedd yn sianelu symudiadau'r adar. Dyna'n cyfle ni i wylio un o ryfeddodau naturiol yr hydref. Hyd yn oed mor ddiweddar â Hydref 11$^{eg}$, roedd modd i mi wylio grwpiau mawr o wenoliaid y bondo yn cael tamaid o ginio uwchben Afon Taf ym Mhontypridd. Ac adar mudol olaf yr haf yn ymadael, dyma adar mudol y gaeaf yn dechrau cyrraedd. Gwelodd Paul Marshman ei heidiau **cochion-dan-aden** cyntaf ar Hydref 7$^{fed}$, gyda **socanod eira** (a chochion-dan-adain a gwenoliaid y bondo hefyd) ar Hydref 11$^{eg}$. Roedd pedair hwyaden ddanheddog yn ôl ar Afon Rhondda ar Hydref 9$^{fed}$. Yn ogystal â hyn fe sylwodd Paul fod to ysbyty newydd Llwynypia yn gartref i glwydfan **siglennod braith**, gyda hyd at 40 o adar. Ar Hydref 1af, fe welodd Paul farcud coch uwchben Cwm Bodwenallt, Llwynypia.

**Planhigion**

Mae rhai planhigion yn dod i fyny yn yr union un lle flwyddyn ar ôl blwyddyn, ddegawd ar ôl degawd. Byddant yn hen ffrindiau cyn y diwedd! Ar Ystad Nant Celyn yn yr Efail Isaf, mae yno lain las lle mae clwt bach o **ysgall y ddôl** yn parhau i ddal gafael ers o leiaf 20 mlynedd. Er nad ydynt byth yn blodeuo, cânt fyw bywydau digon cyffyrddus ymhlith y llaciau basig sy'n weddill o'u hen gynefin, y glaswelltir corsiog. Ond mae planhigion eraill i'w gweld yn egino heb rybudd ac yna'n lluosi a lledaenu. **Jac y neidiwr** yw'r enghraifft fwyaf eithriadol o'r blynyddoedd diweddar (gweler isod). Fe nododd Paul Marshman er hyn fod **cyngaf bach**, a'i fod yn ffynnu yn Llwynypia bellach. Mae hadau tegeirianau yn debyg i bowdwr, sy'n gwasgaru milltiroedd ar yr awelon tyneraf. Dyna pam y gallant ymddangos mewn mannau newydd. Byddant angen rhyw laswelltir heb ei wella braf i egino a thyfu. Mae'r union le iddynt i'w gael yn y llain las yn Llwynypia ar yr ochr dde ger tŷ bwyta MacDonalds. Soniodd Geoff Williams wrthyf am **degeirianau'r wenynen** yno. Mae torwyr gwair a phorfa y Rhondda wedi cadw llygad arnynt, a gadael iddynt flodeuo a hadu.

Ymwelodd Margaret Harding a'i ffrindiau â '*Glofa'r Cwm, gan fod* ***tegeirianau'r gors ddeheuol*** *yno'n drawiadol ac arbennig. Roedd hi'n eithaf*

*gwlyb, yn enwedig ar 17$^{eg}$ Mehefin, a ni'n tri (sef Wendy, Maralyn, a finnau) yn bracso drwy'r pyllau dŵr. Roedd y tegeirianau brych yn llawer gwell nag ar Gomin Llantrisant. Dim siw na miw o hyd o'r gloÿnnod - eleni'n wael iawn'.* Yr un oedd hanes **cwcwll y mynach** ar Afon Clun, ond tua diwedd Mehefin *'i Glydach heddiw i chwilio am degeirianau. Mae tegeirianau'r gors ddeheuol yn wirioneddol dda eleni, ond rwy'n amau fod y tywydd wedi effeithio ar y tegeirianau brych.*

Wrth sôn am degeirianau, clywais gan Mark Evans sut roedd Martin Bevan wedi darganfod '*cytref fach o **degeirianau bera** mewn man glaswelltog agored o fewn coedwig Comisiwn Coedwigaeth Cymru i'r gogledd o Lwydcoed'*. Mae Mark wedi gyrru llun gwych ataf o'r tegeirianau bera yn blodeuo - cyfrifodd ef 37 ohonynt! Dyma'r unig degeirianau bera y gwn i amdanynt yn Rhondda Cynon Taf. Fe nododd hefyd iddo weld '*ychydig ffordd i'r gogledd-orllewin, ar arglawdd bas o slag basig yn sgîl gwaith gosod a rhoi wyneb ac arwyneb ar ffyrdd y goedwig, ychydig blanhigion **plucen felen** wedi'u gwasgaru, gyda chytref o **leision bach** yn bridio arno. Mae gan y lle ryw naws gwaun sialc neu galchfaen mewn mannau . Un profiad a ategodd yr argraff hon oedd cael cipolwg sydyn a **gweirlöyn cleisiog yn ystod f'ymweliad byr**'.*Soniodd Mark wrthyf hefyd am *'safle hen Lofa'r Werfa, sy'n sefyll rhwng Cwm-bach a phen uchaf Abernant. A finnau'n blentyn mi fyddwn i'n chwarae yno o dro i dro. Fel gwastraff glo diffaith rwy'n cofio'r lle, gydag ychydig byllau dŵr yn sgîl golchi tomennydd. Mae'n wir fod y safle yn frithwaith bendigedig o gynefinoedd, fel llawer o safleoedd tebyg; prysgwydd (gwlyb a sych) gyda mannau mwy agored yng nghanol planhigion megis **trewyn** (nid y math sy'n tyfu mewn gerddi) a'r **galdrist lydanddail.** Cyfrifais 11 yn blodeuo mewn un rhan o'r safle, yn ystod yr haf.'* Ni fu digon o gofnodi ar ein tir uchel ac ucheldiroedd ni, a mawr felly oedd y croeso i ymweliad Paul Denning â rhai o'n clogwyni rhewlifol; *'Mentrais i fyny i Graig Y Llyn, y Graig Fawr a'r Graig Fach, i edrych ar y fflora. Un tormaen a ddarganfues i, a hwnnw o liw pinc neu borffor, yn tyfu ar un o silffoedd y Graig Fach. Roedd yn tyfu ar silff yn wynebau tua'r gogledd, ar un o fannau mwyaf uchel, noeth, ac agored Morgannwg. Roedd gennyf obaith nid bychan taw **tormaen porffor** ydoedd. Gwaetha'r modd, a Julian a minnau'n dringo i lawr at y planhigyn, mawr oedd ein siom wrth ddarganfod taw math o dormaen llydandroed a dyfir mewn gerddi ydoedd. O bell, roedd i'w weld yn gywir fel tormaen porffor! Ni welais unrhyw **dormaen llydandroed** yng Nghraig y Llyn, ond ymhlith y planhigion prin i'w gweld yno roedd **pren y ddannoedd, tafod y gors, rhedynach teneuwn, cnwp-fwsogl mawr** ac **arianllys bach'**.* Meddai Paul, '*Gyda llaw, mar golwg dda ar degeirianau'r wenynen ar gylchfan Tonysguboriau. Ni ddaeth cyfle i'w cyfrif eto, ond pan ddw mi rof wybod i chi.'*. Mae Adran Parciau'r Cyngor yn gadael y tegeirianau hyn heb eu torri, fel prosiect peilot. Roeddwn i'n ddiolchgar i Paul, ac i Jo Bates hefyd, am ganmol bechgyn yr Adran Parciau am eu gwaith. Roedd nifer o aelodau eraill o'r cyhoedd wedi beirniadu'r bechgyn am beidio â thorri'r glaswellt yn gynt, ac roedd gair bach o ganmoliaeth wedi codi'u calonnau eto. Yn ogystal â hyn, fe gofnododd Paul llwyn pigog, isel **celynnen Fair**, '*gyda'i blodau mân'*, yn tyfu yn y Beddau.

Un o ffenomenâu mwyaf annymunol y blynyddoedd diwethaf, o bosibl, yw'r

ffaith fod jac y neidiwr wedi mynd yn rhemp. Yn sgîl yr holl hafau gwlyb yn ddiweddar, mae'r planhigyn hwn wedi cytrefu safleoedd ar sawl llechwedd. Mae'n debyg fod portread Terry Hourihan o'r llechweddau ar bwys y Graig yn gyfarwydd i lawer ohonom: *'A finnau'n mynd am dro hirwch ar hyd Hawl Tramwy Cyhoeddus 99 i'r gyffordd â Hawliau Tramwy Cyhoeddus 96, 97, a 98, digwyddais i adnabod a nodi clwt helaeth o'r chwyn hyn ger y gyffordd hon ac ar ochr ddeheuol Byngalo'r Fforest Uchaf. I lawr yw'r nod yn aml, wrth gwrs, ac felly mae hi yn hanes jac y neidiwr, sy'n ymledu i lawr y tyle tua'r darn o dir gwlyb neu gors a adweinir yn lleol fel Tir Plu. Mae jac y neidiwr yn ymledu'n gyflyn i lawr tua'r amgylchedd hwn. Gan ei bod yn llaith ar y tir isel, bydd yno le delfrydol iddo ymledu a dechrau effeithio ar* borfeydd *Fferm Dan y Bryn. Ymlaen fydd hi wedyn tua Choed Fforest-Isaf a thir y Brifysgol.* Fel llawer ohonom, mae Terry wedi cnoi cil ar beth sydd i'w wneud: *'Rhaglen o strimio er mwyn difa'r chwyn cyn iddynt hadu, yn enwedig gan fod y darn o dir dan jac y neidiwr yn eithaf cyfyng hyd yn hyn. Ychydig bosteri wedyn, hwyrach, i helpu cerddwyr i adnabod y planhigion gwasgaredig. Os oes modd mynd i'r afael o ddifrif â'r chwyn ar y llwybr ger y byngalo, mae'n bosibl y bydd modd i'r darn hwn o dir gwlyb gynnal a chadw'i fioamrywiaeth.'*

**Ffyngau** Bu Mark Steer yn chwilio am ffyngau yng Nghoed y Brynnau, Llanharan, a nododd **glust yr Iddew** *Auricularia auricularia-judae*, **cyfrwy cennog** *Polyporus squamosus*, a **phidyn drewllyd** *Phallus impudicus.*

**Glöynnod a gwyfynod**
Roedd 2012 yn un o'r blynyddoedd mwyaf siomedig o ran Lepidoptera ers cyn cof. Mae'n wir i nifer o gyfnodau gwlyb hir fod yn ystod 2010 1 2011 ond fe wnaeth y ddwy flynedd gychwyn a gorffen yn dda. Heidiau o **wynion blaen oren** yw fy nghof pennau, gyda **gleision cyffredin** rif y gwlith. Drwy gydol haf 2012 rwy'n amau na welais fwy na thri glesyn cyffredin. Ond ni thal pendroni ar bethau fel hyn, a rhaid addef i mi weld mwy o **drilliwiau bach** eleni nag yn yr holl ddeng mlynedd ddiwethaf. Mae lle i obeithio felly, y bydd y trilliw bach, yr harddaf o'n gloÿnnod i gyd, yn dod yn gyffredin unwaith eto.

Fe gofnododd Ben Williams ym mis Mai iddo *'fynd draw i Gomin Llantrisant brynhawn heddiw. Gwelais dri gwyn blaen oren; pedwar **gwyn gwythiennau gwyrddion**; pedwar **melyn y rhafnwydd** ac **un fantell paun** ond dim un **fritheg berlog fach*** (gweler isod)*. Siomedig o isel oedd nifer y gloÿnnod a welwyd. Ond, o edrych o gwmpas, cewch eich taro gan absenoldeb blodau, yn enwedig yr am rywogaethau a ffafrir ar gyfer casglu neithdar. Er hyn i gyd fe gododd fy nghalon ar unwaith pan welais **neidr y gwair** fechan. Ar ôl dod o'r Comin, penderfynais gael pip arall ar Gwm Clydach. Os oes gloÿnnod yn hedfan ar y Comin, meddyliais, dylent fod mewn mannau eraill hefyd. Ac yna fe ddaeth fy lwc yn ôl, ac mi welais bedair britheg berlog fach, rhai gwrywaidd newydd ddeor. Yr un oedd yr hanes i fyny yno hefyd. Nid oedd llawer o blanhigion yn rhoi neithdar, a dyna'r gloÿnnod yn ffraeo dros yr ychydig iawn o flodau oedd yn ei ildio.*
Diwrnod braf, os gwyntog, oedd Mai 8$^{fed}$. Gwelais wynion blaen oren, gwynion gwythiennau gwyrddion, mentyll paun, **gweirlöynnod brych,** nifer o trilliwiau bach yn Nant Celyn a'r Efail Isaf, a gwyn blaen oren arall ym Mharc Dowlais, Llanilltud Faerdref.

Ar Fai 28ain, nododd Paul Marshman iddo weld brithegion perlog bach, gyda **gweirlöynnod bach y waun**, ar Lethrau Llwynypia ger safle hen Ysbyty Llwynypia. Mae'n debyg fod y safle hwn yn cynnal cytref brithegion bychan ers blynyddoedd. Ar Fehefin 12fed mi welais chwech o frithegion perlog bach ym Mharc Eirin, Tonyrefail. Ym more heulog y diwrnod wedyn, gwelais 10 o frithegion perlog bach yng Nghwm Clydach, 14 yng Ngwarchodfa newydd y Cyngor yng Nghaeau'r Cwm, y Beddau, a chwech ar Gomin Llantrisant. Roedd gweirglöynnod bach y waun yn ffynnu ar bob safle: nodyn hapus arall ar gyfer 2012. Ar y 18fed o Fehefin, roedd **gwibwyr mawr** a'r **gwierlöynnod y ddôl** cyntaf i'w gweld yn Nant Celyn, yr Efail Isaf. Y pleser mwyaf i gyd oedd gweld pedwar trilliw bach. Ymddangosodd gwibwyr bach ar Gomin Llantrisant erbyn Mehefin 27ain. Ar y 27ain o Orffennaf, ar lednentydd Afon Rhondda uwchlaw Blaenrhondda mi welais bedair neu bump o **frithegion gwyrdd**, a dwy fritheg berlog fach, gyda nifer o weirglöynnod bach y waun ac o weirglöynnod y ddôl.

Daeth prawf fod gweithio a rheoli mewn partneriaeth yn effeithlon ddoe ar ffurf e-bost oddi wrth Richard am Gomin y Graig, Llantrisant: *Cyflawnais arolwg o gynefinoedd y Graig ddoe. Newyddion da iawn! A thorri'r stori'n fyr, mae maint y cynefin da i frithegion brown wedi cynyddu 12 o weithiau dros y pum mlynedd ddiwethaf - o 0.11 hectar i 1.27 hectar. Rydym yn ddiolchgar am gyfraniad llwyddiannus pob un o'r partneriaid, yn enwedig da a merlod y cominwyr.* Mae hyn yn galondid i ni i gyd.

Bu Richard Smith, Ben Williams wrthi'n ddiwyd fin nos drwy gydol Mehefin yn chwilio am **frithegion y gors** . *Er gwaetha'r siom gynyddol, taerodd Richard yn ddigon sionc tua chanol y mis, 'Mi gefais hyd i un fritheg y gors mewn rhan arall o Donyrefail Gogledd-ddwyrain, lle bydd Paul Denning yn gwylio fel arfer. Roedd Scott a Nick wedi cael hyd i rai mewn man arall yno ychydig wythnosau'n ôl. Cawsant eu gweld mewn tair man ar y safle,, felly. Mae golwg da ar y cynefin, gyda llafn y bladur ar fin blodeuo'.* Fel y nodwyd uchod, roedd camp Mark yn gweld gweirlöyn cleisiog ymhlith uchelfannau blwyddyn y gloÿnnod.

Nododd Mark Steer iddo weld gwyfyn yr **adain ddu** yng Nghoed y Brynnau, Llanharan. Rhywogaeth eithaf prin yw'r gwyfyn hwn, sydd o liw brown huddygl ac yn hedfan lliw dydd. Cefais lwc eithriadol tua chanol Mehefin, wrth weld **gwalchwyfyn hofran** yn ymweld â'r triaglog coch yn fy ngardd ffrynt. Mae'r triaglog yn tyfu'n union y tu allan i'r ystafell ffrynt. Cafodd y teulu cyfle i wylio'r gwalchwyfyn hofran o ychydig fodfeddi i ffwrdd. Ac yn ystod yr hydref byddwn ni'n craffu drwy'r un ffenestr ar flodau Mihangel. Eleni ymhlith yr heidiau o bryfed hofran a gwenyn, roedd nifer o drilliwiau bach, mentyll coch, a chomâu.

**Gweision y Neidr**
Bore braf heulog oedd hi ar Fehefin 13eg. Gwelais **bicellwr pedwar nod** ac **ymerawdwr** yng Nghaeau'r Cwm, y Beddau, **gwas neidr eurdorchog** ar Gomin Llantrisant, a mursennod **glas asur** a **glas cyffredin** yng Nghwm Clydach. Roedd pwll dŵr newydd gael ei greu yn yr ardd, a daeth **mursennod mawr coch** i'w gytrefu ac i ddodwy wyau rif y gwlith. Dengys hyn mor fanteisgar yw rhai rhywogaethau, a pha mor gyflym y gellir dechrau defnyddio

safleoedd a mannau bridio a magu newydd. Bob gwanwyn, bydd **mursennod mawr tywyll** yn deor ar Afon Elái, ac yn gwibio i fyny o'r afon a thrwy erddi'r Meisgyn. Ar lannau afonydd araf, hwyrdrwm Swydd Hertford y cefais i fy magu. Dyna pam y mae pryfed fel y mursennod mawr tywyll yn greaduriaid egsotig i mi, a bod gweld yn gwibio heibio fel mellten fach yn rhoi cymaint o wefr i mi bob tro.

**Infertebratau Eraill**
Roedd Eddie, gŵr Mrs. Charnock, wedi adeiladu gwesty bach i bryfed, ac mae hi wedi anfon llun o'r gwesty ataf. Mae'r infertebratau wedi ymgartrefu yno. Ychydig flynyddoedd yn ôl, mi ddriliais ychydig dyllau mewn darnau o hen bren a'u dodi yma ac acw mewn mannau heulog yn fy ngradd. Cyn bo hir, roedd gwenyn a chacwn unigol wedi dechrau'u defnyddio, dodwy wyau yn y tyllau, a phlygio'r rheiny â llaid. Rwy'n dwlu rhygnu ymlaen o hyd am y gwenyn a'r picwn yn fy ngardd, a chefais ddiwrnod - neu ddiwrnodau - i'w gofio eleni. Yn ystod mis Mehefin, ac er gwaetha'r tywydd, fe welais, nid unwaith ond deirgwaith, wrywod ysblennydd a hollol ddigamsyniol y **wenynen hirgorn (*Eucera longicornis)*** yn fy ngardd. Pam y dywedaf 'digamsyniol? Er bod y wenynen hon tua'r un faint â gwenynen fêl, mae'r antenau anferthol bron mor hir â'i chorff - dyna'r rheswm am ei galw'n 'gorniog'. Mi gefais gipolwg sydyn ar un yn yr ardd ddwy flynedd yn ôl. Roedd hi'n bwydo ar ffacbysen chwerw, sy'n blanhigyn gwirioneddol dda i wenyn. Bu pigau'r aran a blodau'r ffa llydan yn atyniad mawr i'r gwenyn gwrywaidd eleni, a chefais sawl cyfle gwych i'w gweld - er nad oedd camera neu rwyd wrth law unwaith! Un o rywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) y Deyrnas Unedig yw'r wenynen hirgorn. Lleihaodd ei ddosbarthiad yn y Deyrnas Unedig yn sylweddol. Mae'n dibynnu ar hen ddolydd a gweirgloddiau blodeuog, ac ar dir moel glannau lle mae'n turio i greu nythod. Mae hen welltiroedd blodeuog i'w cael ym Meisgyn, fel mewn sawl rhan o Rondda Cynon Taf, yn ogystal â glannau (hen a newydd) lle mae tir moel. Mi fentrwn i fod cyntaf o wenyn hirgorn i'w chael rywle'n agos. Methais gael hyd i'r gytref eleni, ond rhof gynnig arall arni'r flwyddyn nesaf. Mae'n bryd i ni droi ein sylw at rywogaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth arall. Maent yn hoff iawn o flodau pys ac, mae'n debyg, yn arbennig o hoff o **ytbys y ddôl**, sy'n un o'r planhigion maes a dôl gweddol gyffredin yn Rhondda Cynon Taf.

Tua chanol Mehefin, ym mhen arall Rhondda Cynon Taf, bues i'n ddigon ffodus i ddod ar draws gwenynen hollol ddigamsyniol arall, sef y **wenynen durio lwyd *(Andrena cineraria)***. Roedd yn bwydo ar flodau **tresgl y moch** mewn porfa rhos yn yr Hirwaun. Gwenynen fawr fraith ddu a gwyn yw hon, heb ddim sy'n edrych yn debyg iddi. Roedd arnaf awydd gweld un ar ôl darllen amdani mewn llyfrau, a dyma wireddu fy mreuddwyd. Ymddengys ei bod yn ychwanegu at ei hehangder cynefin yn y Deyrnas Unedig. A barnu yn ôl y mapiau dosbarthiad, mae'n debyg iddo ymsefydlu'n gryf ym Mannau Brycheiniog, er nad yw'r cofnodion ymhellach i 'r de ddim yn niferus iawn. Dyma rywogaeth arall i'w hychwanegu at restr anrhydeddau ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol!

Dyma adroddiad ardderchog a gawsom oddi wrth Rolf Brown, Aberdâr: *'Mi wn yn iawn i mi addo rhestr o bryfed fy ngardd dro ar ôl dro y llynedd, ond dyma*

*hi o'r diwedd!! Fel y gwelwch, rwyf heb ddefnyddio meicrosgob!*

*Gwenyn - Bombus hortorum, Bombus lucorum, Bombus lapidarus, Bombus pratorum, Bombus hypnorum, Bombus pascorum, Adrena haemorrhoa, Chwilod- Adala bipunctata (buwch goch dau smotyn), Calvia 14-guttata (buwch fach smotyn hufen), Llifbryf - Cephus pygmaeus (llifbryf), Nematis ribesii, Pryf hofran Leucozona lucorum (pryf hofran), Eristalis tenax, Melantsoma sp., Scaeva sp. Syrphus ribesii, Neoascia podagrica, Episyrphus balteatus, Morgrug - Lasius niger a Lasius flavusCorynnod - Dysdera crocota, Araneus diadematus, Pisaura mirabilis, Pholcus phalangoides Cantroediaid - Lithobius sp, a Scutigerella immaculataGalerucella lineola (chwilen ddail), Cantharis rustica (chwilen sowldiwr) Mordon equestris (pryf y gylfinog), Algais urtica (trilliw bach) Ouropteryx sambucaria (gwyfyn cynffon gwennol), Otiorhynchus clavipes (gwiddonyn) Armadillidum vulgare (gwrachen gron) a Chorthippus brunneus (sioncyn y gwair).*

*Yn ogystal â hyn, mae coetir derw Parc Aberdâr wedi gwella'n gyflym ers lleihau'r gwaith torri a lladd gwair, glaswellt, a phorfa tua thair blynedd yn ôl. Mae un tegeirian y gors ddeheuol wedi brigo i'r wyneb yno, a bu cryn adfywio ac aildyfu - angenrheidiol iawn - ar y derw.*

Bu Mark Steer wrthi'n cofnodi chwilod yng Nghoed Brynna, lle gwelodd ef **chwilen olew fioled *Meloe violaceus,*** a **chwilen y gwaedlif *Timarcha tenebrosa***.

Dyma fi'n ymddiheuro fodd bynnag fod y Cylchlythyr mor hir. Roeddwn i fod i gyhoeddi un ym mis Gorffennaf, ond fe wyddoch mor rhwydd mae pethau'n llithro. Diolch eto am eich holl adroddiadau a chofnodion. Gobeithio y caf faddeuant os collais rai.

Richard Wistow, Ecolegydd
CBS Rhondda Cynon Taf
Llwyn Castan
Heol y Llyfrgell
Pontypridd, CF37 2YA
Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk